

Cofnodion Drafft

COFNODION O GYFARFOD CYNGOR CYMUNED HARLECH A GYNHALIWDYD YN YR HEN LYFRGELL, HARLECH A DROS ZOOM AM 7.00 O'R GLOCH 05.10.26

10.1 YMDDIHEURIADAU

Cyng. Tegid John (Is-Gadeirydd), Christopher Braithwaite, Edwina Evans. .

10.2 PRESENNOL

Cyng. James Maxwell (Cadeirydd), Reg Chapman, Mark Lewis, Simon Turner, Jane Emmerson, Giles Bentham, Lisa Robertson, Martin Hughes, a'r Cyng. Annwen Hughes a Gwynfor Owen (Cyngor Gwynedd).

'Roedd neb o'r cyhoedd yn bresennol dros zoom a neb yn bresennol yn yr ystafell.

'Roedd y Cyng. James Maxwell, Reg Chapman a Giles Bentham yn bresennol dros zoom ynghyd ar Cyng. Gwynfor Owen (Cyngor Gwynedd) a oedd yn bresennol am rhan o'r cyfarfod.

Oherwydd bod y Cadeirydd yn y cyfarfod dros zoom ar Is-Gadeirydd yn absennol cymerwyd y Gadair gan y Cyng. Simon Turner.

Cwestiynau gan aelodau o'r cyhoedd

Nid oedd unrhyw gwestiynau gan y cyhoedd.

10.3 CYHOEDDIADAU Y CADEIRYDD.

Cafwyd y cyhoeddiadau canlynol gan y Cadeirydd:-

Gofynnwyd i'r Clerc anfon llythyr o ddiolch i Mrs Wendy Williams am ei gwasanaeth hir i'r Cyngor a'r Gymuned yn dilyn ei ymddiswyddiad fel Aelod o'r Cyngor.

'Roedd wedi cael trafodaethau gyda Mr. Graham Perch ynglyn a rhoi'r cyfrifoldeb am drydan a dŵr y llain rygbi yng nghae chwarae Brenin Sior i'r Cyngor a dod ar darn tir hwn dan reolaeth y Cyngor. Cytunwyd i dalu anfoneb Dwr Cymru.

'Roedd wedi ymweld a cae chwarae Llyn y Felin gyda'r pwyllgor mannau gwyrdd a fydd yn darparu adroddiad ar waith brys i'w wneud

'Roedd wedi cael negeseuon e-bost gyda Steve Beech i drefnu cyfarfod gyda phennaeth Ysgol Arddudwy ynghylch cynlluniau i symud ystafell y band i dir Ysgol Arddudwy.

Mae trefniadau wedi'u gwneud ar gyfer cyfarfod cyhoeddus yn y Neuadd Goffa mewn perthynas â datblygiad y gwesty a cae chwarae Brenin Sior V a bydd hyn yn cael ei gynnal ar yr 22ain o Hydref am 7.00 o'r gloch.

10.4 COFNODION

Derbyniwyd cofnodion o gyfarfod Medi 7ed 2026 fel rhai cywir.

10.5 MATERION YN CODI O'R COFNODION

Item 9.7 (E) datganodd y Cyng. Giles Bentham ei fod heb gytuno i wneud tudalen gweplyfr newydd i'r Cyngor.

10.6 DATGAN BUDDIANT

Datganodd y Cyng. Reg Chapman ddiddordeb yn y mater i wneud gyda HAL

Datganodd y Cyng. Simon Turner ddiddordeb yn y mater i wneud gyda HAL

Datganodd y Cyng. Martin Hughes ddiddordeb yn y mater i wneud gyda HAL

Ni lofnodwyd Dogfen Datgan Buddiant Personol ganddynt am eu bod wedi gwneud hyn yn barod yng nghyfarfod diwethaf y Cyngor a bod y diddordeb yn y mater hwn yn rhedeg yn barhaol.

Datganodd y Cyng. Reg Chapman ddiddordeb yng nghais cynllunio yr Hen Ysgol a bydd yn llofnodi Dogfen Datgan Buddiant Personol pan fydd adref o'i wyliau.

10.7 MATERION YN CODI

A Cynllun Cyllideb

Adroddwyd bod £41,101.66 (a oedd yn cynnwys costau banc) wedi cael ei wario ers cychwyn y flwyddyn ariannol newydd a bod hyn yn £41,376.84 o wariant yn llai na oedd wedi cael ei glustnodi yn y gyllideb am y flwyddyn 2026/27.

B HAL - CIC

Derbyniwyd yr adroddiad canlynol gan y Cyng. Reg Chapman mewn perthynas â'r sefyllfa ddiweddaraf yn ymwneud â HAL -

Mae'r Bwrdd yn dal i aros am gyfarfod y dylai Cyngor Gwynedd ei drefnu, gyda phennaeth Ysgol Ardudwy.

Mae hyn bellach wedi cael ei osod ar gyfer 12/10/2026.

Mae cwestiwn am yr union amser ond gobeithiwn y bydd hyn yn digwydd.

Mae'r Cadeirydd wedi nodi ei fod yn trefnu cyfarfod i roi gwybodaeth i'r cyhoedd am gynlluniau ar safle'r pwll nofio, a chynigion i wella cyfleusterau ar faes chwarae Brenin Sior V.

Mae hyn wedi cael ei drefnu ar gyfer 22/10/2026.

Datganodd y Cyng. Reg Chapman ei fod yn teimlo bod Cyngor Gwynedd ddim yn cyd-weithio gyda hwy ar y mater hwn.

Datganodd y Cyng. Giles Bentham bod y safle ddim yn ased cymunedol ond adeilad sydd wedi cael ei adael.

C Cae Chwarae Brenin Sior a Llyn y Felin

Adroddwyd bod cylchfan newydd ynghyd a panel nought a crosses wedi cael eu gosod yn cae chwarae Brenin Sior ar gost o £21,060 i'r Cyngor. Datganodd y Cadeirydd ei fod wedi cysylltu gyda'r Cyng. Giles Bentham i ofyn iddo gynnwys hyn ar dudalen webylfr y Cyngor ond ei fod wedi gwrthod gwneud hyn.

D Grant Arwyddion

Adroddodd y Cyng. Simon Turner bod grant wedi ei gael gan Gyngor Gwynedd tuag at yr arwyddion sydd o ddeunydd metal aliminiwm gyda map arnynt a 7 cod QR yn ei amgylchu gyda'r categoriadau canlynol arnynt:-

Bwyta, yfed a siopa

Be sy'n digwydd

Hanes, treftadaeth a theithiau cerdded

Pethau i'w gweld a'i gwneud

Gwybodaeth i ymwelwyr

Llety

Crwydro'r ardal.

E Gwefan Visit Harlech ar Cyngor Cymuned

Adroddodd y Cyng. Simon Turner bod trafodaethau cychwynol wedi cael eu cynnal yng nghyfarfod diwethaf y Cyngor i brynnu gwefan Visit Harlech a byddai Helen Williams yn rhedeg y wefan ar y cyd a gwefan y Cyngor Cymuned.

Byddai busnesau oedd eisiau cael bod yn rhan o unrhyw un o'r categorïau yn y mater uchod yn gorfod talu.

Ar ol trafodaeth cytunwyd i gynnal cyfarfod arbennig o'r Cyngor nos Lun y 12ed o'r mis hwn dros zoom i drafod y mater hyn ymhellach oherwydd bod rhai Aelodau yn teimlo bod ddim digon o wybodaeth wedi cael ei ddarparu heno ynglyn a costau a.y.y.b. cyn dod i benderfyniad terfynol ar y mater.

F Materion a Gynigir

Aeth y Cadeirydd o amgylch y bwrdd gan ofyn i bob Aelod beth oeddynt eisiau ei gynnwys yn yr agenda yn y dyfodol ag fe gafwyd yr ymatebion canlynol –

Cadeirydd – mae angen hyrwyddo y gwaith sydd yn cael ei wneud gan y Cyngor ar dudalen wepylfr y Cyngor.

Cyng. Martin Hughes – angen i'r is-bwyllgor cyllid edrych ar y gyllideb a'i adolygu ag hefyd adolygu y Rheolau Ariannol.

Cyng. Simon Turner - Eisiau gwybod oedd yn iawn gwario £500 ar siocled fel anrheg Sion Corn i'r plant fydd yn ymweld ag ef noson siopa hwyr. Cytunwyd ar hyn.

Cyng. Jane Emmerson – eisiau gofyn i Phil Price ynglyn a cyfieithu dros zoom

Cyng. Giles Bentham – eisiau taliadau gael eu dirprwyo i'r is-bwyllgorau lle eu bod yn gorfod dod i gyfarfod y Cyngor i ofyn i'r gwariant gael ei fabwysiadu.

Cyng. Lisa Robertson – ddim i'w ychwanegu.

Cyng. Reg Chapman – eisiau gwahodd Steve Beech i gyfarfod o'r Cyngor er mwyn cael gwybododaeth am grantiau sydd ar gael.

Cyng. Mark Lewis – ddim i'w ychwanegu

G Adroddiadau Is-Bwyllgorau – Cyllid, Ardal Gwyrdd, Biomrywiaeth, Isadeilad, Projectau, Digwyddiadau

Is-bwyllgor cyllid – adroddwyd yn absenoldeb y Cadeirydd bod yr is-bwyllgor hwn wedi cyfarfod ar yr 22ain o fis diwethaf ond nid oedd dim llawer o faterion i'w trafod. Cyfarfod nesa ar y 29ain o'r mis hwn.

Is-bwyllgor ardal gwyrdd – Cafwyd yr adroddiad canlynol gan y Cyng. Reg Chapman –

Yn bresennol: Jim Maxwell, Simon Turner, Reg Chapman, Jane Emerson

Ymddiheuriadau: Giles Bentham

· Ymddiheurodd RC am y problemau wrth drefnu'r cyfarfod hwn ar-lein ac ar fyr rybudd.

· Y syniad oedd cyfarfod cyn pwyllgor cyllid er mwyn caniatáu i gais am gyllid neu adolygiadau ddilyn dilyniant rheoledig.

· Edrychwyd ar y 2 ddyfynbris ar gyfer offer iard chwarae yn Llyn y Felin ond nid yn fanwl. Roedd angen mwy o ddyfynbrisiau er mwyn cydymffurfio â rheoliadau ariannol, yna gellir edrych ar bob dyfynbris gyda'i gilydd a gwneud argymhellion i'r Cyngor. Bydd Reg yn cael mwy o ddyfynbrisiau a bydd Chris Braithwaite yn cael ei wahodd pan fydd mwy o ddyfynbrisiau wedi'u cael.

· Roedd nifer o faterion gyda Llyn y Felin ac fe benderfynwyd cynnal cyfarfod ar y safle i awgrymu ffordd o godi safon y safle hwn o fewn y cyllidebau sydd ar gael. Yn benodol, problemau mole a'r ffens gwifrau.

· Cytunwyd y bydd angen cynhyrchu manyleb ar gyfer pob eitem gynnal a chadw fel torri'r gwair, torri'r llwyni ac ati. Byddai hyn yn bwysig iawn gan fod y mannau chwarae chwaraeon a'r ardaloedd naturiol penodedig wedi'u gwahanu ar KGV. Hefyd bydd angen tynnu'r gwair wedi'i dorri yn Llyn y Felin.

· Bydd cyfarfod pellach i'w drefnu am yr wythnos sy'n dechrau 19/10/2026

Eisiau diolch i Martin Wagner am chwystrellu chwyn yn cae chwarae Llyn y Felin a bydd plannu planhigion yn cychwyn yn fuan.

Is-bwyllgor biomrywiaeth – Adroddodd y Cadeirydd 'roedd gwaith fod i gychwyn yn cae chwarae Brenin Sior V 3 mis yn nol ond yn aros am Hywyn Williams.

Is-bwyllgor Isadeilad – ddim wedi cyfarfod

Is-bwyllgor Projectau – ddim i'w adrodd

Is-bwyllgor digwyddiadau – Adroddodd y Cyng. Simon Turner bod goleuo Harlech yn digwydd ar yr 28ain o

Dachwedd ynghyd a noson siopau hwyr a parade lanteri. 'Roedd Siop y Groser yn mynd i weini gwin cynnes ag hefyd 'roedd angen denu y pobl i mewn i'r gwahanol siopau ar hyd y stryd.

10.8 CEISIADAU CYNLLUNIO

Tystysgrif Defnydd Cyfreithlon (Presennol) ar gyfer defnyddio eiddo sy'n dod o dan Dosbarth Defnydd C5 (Tai annedd, a ddefnyddir at ddibenion heblaw fel prif breswylfa neu breswylfa unigol)- Llys Ioan, 5 Porkington Terrace, Harlech (NP5/61/LUL293A)

'Roedd 4 yn cefnogi y cais hwn, 2 yn atal a 2 yn erbyn ag felly 'roedd cefnogi y cais yn cario.

Trosi ac ailddatblygu cyn-lyfrgell i greu pedwar uned breswyl (1 uned tair ystafell wely a 3 uned dwy ystafell wely) Llyfrgell, Ffordd Uchaf, Harlech (NP5/61/334A)

Gwrthwynebu y cais hwn oherwydd bod ddim digon o ymgynghoriad wedi bod ar y cais cynllunio gyda'r Cyngor o flaen llaw ag hefyd pryder ynglyn a colli llefydd parcio a bod ffenestri plastic yn mynd i gael eu gosod ar adeilad mewn ardal gadwraeth.

10.9 ADRODDIAD Y SWYDDOG ARIANNOL CYFRIFOL

Adroddodd y Swyddog Ariannol Cyfrifol bod £54,144.71 yn y cyfrif rhedegol a £116,407.76 yn y cyfrif cadw.

Taliadau yn ystod y mis

Mr. G. J. Williams	- £408.00 – torri gwair cae peldroed a cae chwarae Brenin Sior
Mr. Meirion Griffith	- £270.00 - torri gwair y fynwent gyhoeddus
Mr. Meirion Griffith	- £150.00 - torri gwair amrywiol lefydd
Mr. Meirion Griffith	- £45.00 - torri gwair cae chwarae Llyn y Felin

G. L. Jones Playgrounds - £21,060.00 – offer newydd yn cae chwarae Brenin Sior
 Mr. Meirion Evans - £240.00 - tynnu hen goliau yn cae chwarae Brenin Sior
 Mr. Simon Turner - £92.77 - nwyddau ar gyfer addurniadau nadolig
 Blachere Illuminations - £1,497.60 - goleuadau nadolig
 Cyllid a Thollad - £110.00 - treth ar gyflog y Clerc
 Mr. Joe Patton - £120.41- ad-daliad eitemau l'r ardd gymunedol (allan o gyfrif cae chwarae Brenin Sior)

Fe gafodd y taliadau uchod eu prosesu gan y Cyng. Mark Lewis a wnaeth y Cyng. Jane Emmerson gymeradwyo'r taliadau ag fe roddwyd ganiatad l'r Clerc/Trysorydd l'w talu ar lein neu drwy siec ar ddiwedd y cyfarfod.

Derbyniadau yn ystod y mis

Ddim wedi dod i law ers cyfarfod diwethaf y Cyngor

Anfonebau wedi eu talu ers y cyfarfod diwethaf

Catrin Soraya Williams - £135.00 - gwasanaeth cyfieithu
 Blachere Illuminations - £1,182.48 - goleuadau nadolig (talwyd 11.9.26)

10.10 GOHEBIAETH

A Cyngor Gwynedd – Adran Amgylchedd

Wedi derbyn e-bost gan yr Adran uchod ynglyn ag Ymgynghoriad Rhwydwaith Teithio Llesol ag yn hysbysu y Cyngor bod yr Ymgynghoriad hwn ar agor tan y 26ain o Dachwedd. 'Roedd y Clerc wedi anfon yr e-bost hwn ymlaen i bob Aelod yn barod.

B Un Llais Cymru

Wedi derbyn e-bost gan yr uchod yn hysbysu y Cyngor bod cyfarfod o bwyllgor Ardal Meirionnydd yn cael ei gynnal ar y 13eg o'r mis hwn dros zoom. 'Roedd y Clerc wedi anfon yr e-bost hwn ymlaen i bob Aelod yn barod.

C Mr. Lee Turner

Wedi derbyn e-bost gan yr uchod yn gofyn a fyddai y Cyngor yn fodlon iddo gario allan gwaith ar y cwrt tennis fel ei fod yn gallu ei ddefnyddio. Adroddodd y Clerc ei bod wedi anfon yr e-bost hwn ymlaen i'r Cadeirydd ag ei fod wedi ateb Mr. Turner yn datgan y byddai yn cysylltu ag ef pan fyddai adref o'i wyliau.

D Mrs Wendy Williams

Wedi derbyn e-bost gan yr uchod yn hysbysu y Cyngor ei bod yn ymddiswyddo fel aelod o'r Cyngor. Adroddodd y Clerc ei bod wedi cael gwybod gan y Swyddog Etholiadol oherwydd bydd etholiad yn cael ei chynnal mis Mai nesa nid oedd yn rhaid hysbysebu seddi gwag. Cytunwyd i gario ymlaen i hysbysebu y sedd wag hon.

10.11 MATERION CYNGOR GWYNEDD

Fe dderbyniwyd yr adroddiad canlynol gan y Cyng. Annwen Hughes – Adroddodd ei bod ers cyfarfod diwethaf y Cyngor wedi cael cyfarfod gyda Ceris Williams, Rheolwr Prosiect, Adran Tai ac Eiddo, Cyngor Gwynedd er mwyn trafod y datblygiad arfaethedig o safle yr Hen Ysgol yn y dref l 4 uned sef 3 ty ag 1 fflat. Cafodd wybod bod astudiaeth dichonoldeb wedi cael ei gwblhau a bydd cais cynllunio yn cael ei gyflwyno yn fuan. Bydd yn rhaid lledu y mynedfa presennol a bydd y tai ar flat ar ol eu cwblhau yn cael eu cynnig l fobol lleol sydd wedi byw yn yr ardal am 5 mlynedd neu fwy.

'Roedd wedi derbyn e-bost gan S. P. Energy Works yn datgan bydd ffordd drwy tref Bermo yn cael ei chau am 3 wythnos mis nesa tra bod gwaith trydanol anghenrheidiol yn cael ei gario allan, ag 'roedd wedi anfon yr e-bost hwn ymlaen l'r Aelodau l gyd er gwybodaeth. Hefyd 'roedd wedi derbyn llythyr ar ran Cyngor Cymuned Llanbedr yn datgan bydd gwaith o ail wynebu ffordd Sarn Hir yn cael ei gario allan ganol mis yma a bydd y ffordd hon ar gau yn ystod y nos ar y 14eg, 15ed ar 16eg o'r mis hwn. 'Roedd wedi anfon copi o'r llythyr hwn l bob Aelod er gwybodaeth. Adroddodd ymhellach l beth oedd wedi anfon at yr Aelodau yn barod PCSO Elli Williams wedi cysylltu gyda hi yn datgan pryder ynglyn ar gwrth ymddygiad cymdeithasol sydd yn cymeryd lle yn yr ardal ar hyn o bryd o Benrhyndeudraeth draw am Bermo ag ei bod wedi derbyn e-bost gan Sian Llwyd, Swyddog Ymgysylltu a'r Gymuned a Theuluoedd yn gofyn a fyddai yn bosib cael cyfraniad ariannol tuag at y prosiect mae hi yn mynd l gynnal yn Ysgol

Arduwyd gyda'r disgyblion, rhieni a gwarchodwyr I geisio atal yr hyn sydd yn digwydd ar y funud. Cytunwyd I gyfrannu £220 tuag at y prosiect hwn.

'Roedd wedi derbyn e-bost gan Cyngor Gwynedd yn datgan eu bod yn mynd I osod lloches bws newydd ger ystad Bron yr Hwylfa rhwng mis Rhagfyr eleni a mis Mawrth 2027 ar yr amod bod y Cyngor Cymuned yn fodlon cymeryd cyfrifoldeb am yr yswiriant a chynnal a chadw y lloches unwaith fydd wedi ei osod. Cytunodd yr Aelodau I hyn.

Ni chafwyd adroddiad gan y Cyng. Gwynfor Owen oherwydd nid oedd yn fodlon aros tan diwedd y cyfarfod I'w adrodd ag felly yr oedd wedi gadael y cyfarfod.

ARWYDDWYD.....Cadeirydd

DYDDIAD..... 910